Medrwn Môn

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

4. Gwirfoddolwyr

4.14 Buddsoddi mewn gwirfoddolwyr

Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr yw safon ansawdd y DU ar gyfer rheoli gwirfoddolwyr. Os yw'ch mudiad yn cynnwys gwirfoddolwyr, mae cyflawni safon *Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr* yn ei alluogi i wneud y defnydd gorau o'r adnodd bobl werthfawr yma.

Mae'r Safon yn cynnwys deg Dangosydd ymarfer gorau rheoli gwirfoddolwyr, a gefnogir gan 55 ymarfer, yn seiliedig ar bedwar maes allweddol o reoli gwirfoddolwyr:

- cynllunio ar gyfer cynnwys gwirfoddolwyr
- recriwtio gwirfoddolwyr
- dethol a chydweddu gwirfoddolwyr
- cefnogi a chadw gwirfoddolwyr

Rheolir Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr gan bedwar asiantaeth datblygu'r Fforwm Gwirfoddoli: Volunteering England, Volunteer Development Scotland, Volunteer Development Agency yng Ngogledd Iwerddon a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA).

Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr yng Nghymru

WCVA sy'n rheoli *Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr* yng Nghymru. Mae'r safonau, yr asesu a'r achrediad yr un fath ar gyfer pob mudiad sy'n defnyddio *Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr,* dros y DU gyfan. Fe fydd yna fân wahaniaethau yn y ffordd y rheolir y safon ym mhob gwlad.

I gyrraedd *Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr* drwy WCVA rhaid i'ch mudiad fod yng Nghymru, ynghyd â chyfeiriad cofrestredig a phrif swyddfa.

Mae yna ddau opsiwn ar gyfer mudiadau sy'n seiliedig yng Nghymru sy'n dangos diddordeb yn *Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr.*

- **Opsiwn 1:** Ar gyfer mudiadau sy'n dymuno defnyddio *Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr* ar gyfer gwella a datblygu arferion.
  Bydd y rhai sy'n dewis Opsiwn 1 yn medru lawr lwytho'r safonau am ddim, drwy glicio ar gyswllt 'Dogfen safon Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr' ar adran Cymru ar y wefan www.investinginvolunteers.org.uk. Gallant ar unrhyw adeg ddewis cael eu hasesu i ennill statws *Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr* drwy symud ymlaen at Opsiwn 2.

- **Opsiwn 2:** Ar gyfer mudiadau sy'n dymuno cyflawni statws achrededig a chyflawni gwobr *Buddsoddwyr mewn Gwirfoddolwyr.* Gofynnir i fudiadau gofrestru ar-lein, er mwyn defnyddio holl rannau perthnasol y wefan. Wedyn, dilynwch y camau a amlinellir isod.

Cyflawni Gwobr Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr

Ar gyfer y rhai sydd eisiau cyflawni Gwobr *Buddsoddwyr mewn Gwirfoddolwyr* bydd y deg cam canlynol yn eich tywys drwy'r broses:

Cam Un: Cofrestru fel mudiad Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr.
Yn dilyn cofrestru, bydd ymgynghorydd yn cysylltu â chi, a bydd yn rhoi gwybodaeth i chi sut i ddechrau gweithio tuag at *Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr.* Gallwch ddechrau defnyddio'r geiriau 'Gweithio tuag at safon Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr' ar eich llenyddiaeth.

Cam Dau: Hunan asesu
Defnyddiwch y ffurflenni hunan asesu i asesu'ch arferion yn erbyn y deg dangosydd i weld sut maen nhw'n cymharu. (Gallwch lawr lwytho hwn o adran 'mynediad cyfyngedig' y wefan; fe gewch gyfrinair wrth gofrestru ar gyfer *Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr*).

Cam Tri: Datblygiad
Adnabyddwch y camau y bydd angen eu cymryd i gwrdd â'r safonau. Bydd y wefan yn rhoi mynediad i adnoddau i'ch helpu chi fynd i'r afael ag unrhyw fylchau er mwyn cyflawni'r safonau. Os ydych eisiau mwy o wybodaeth, cysylltwch â'ch ymgynghorydd WCVA am gyngor sut i fynd ymlaen.

Cam Pedwar: Datblygu'r portffolio
Dechreuwch gasglu tystiolaeth, deunyddiau a dogfennau i adeiladu'r portffolio o enghreifftiau o arfer da ar gyfer ei asesu.

Cam Pump: Gwnewch gais am asesiad
Pan fyddwch yn barod, bydd WCVA yn apwyntio aseswr. Gofynnir i chi gyflwyno eich hunan asesiad a 3 darn o dystiolaeth. Bydd yr aseswr yn trafod trefniadau'r asesu gyda chi; bydd hwn yn cynnwys cyfweliadau gyda phersonél allweddol, yn cynnwys staff, gwirfoddolwyr, ymddiriedolwyr a / neu aelodau'r pwyllgor.

Cam Chwech: Adroddiad asesu
Yn dilyn eich ymweliad asesu, byddwch yn derbyn adroddiad ar lafar oddi wrth yr aseswr, yn dweud wrthych os ydych wedi cwrdd â safon *Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr.* Bydd adroddiad ysgrifenedig yn dilyn, yn cynnwys argymhellion ar gyfer datblygu, os yn angenrheidiol.

Cam Saith: Gwiriad
Os yw'ch mudiad yn cwrdd â safon *Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr* bydd yr argymhelliad yn mynd at Banel Sicrwydd Ansawdd ar gyfer gwiriad. Os nad yw'ch mudiad yn cwrdd â'r safon, bydd cyngor ar gael ar gyfer gweithredu pellach.

Cam Wyth: Corff dyfarnu'r DU
Mae'r Panel Sicrwydd Ansawdd yn cadarnhau penderfyniad yr aseswr ac yn gwneud argymhelliad i Gorff Dyfarnu Fforwm Gwirfoddoli'r DU.

Cam Naw: Derbyn y wobr
Byddwch yn derbyn Gwobr *Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr,* a gallwch ddefnyddio logo'r Wobr ar eich llythyron a'ch cyhoeddiadau.

Cam Deg: Cynnal y safon
Anogir eich mudiad i ddatblygu rhaglen gwella parhaus a gwerthuso i sicrhau fod yr arfer da a ddatblygwyd yn ystod proses *Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr* yn gyson, yn barod ar gyfer ail-asesu ymhen tair blynedd.

Beth yw'r gost?

Mae cost cyflawni *Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr* yng Nghymru yn dibynnu ar faint a natur y mudiad.
Cost cofrestru yw:

- mudiad gwirfoddol £75
- mudiad statudol £300

Asesu - £300 y diwrnod i fudiadau gwirfoddol, £500 i fudiadau statudol *

* Bydd asesu fel arfer yn cymryd un diwrnod. I fudiadau mawr (mwy na 100 o wirfoddolwyr) neu rai gyda strwythur cymhleth neu ardal ddaearyddol eang, gall gymryd 2 ddiwrnod neu fwy.

Sut allaf gofrestru ar gyfer Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr?

1. Trafodwch *Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr* gyda holl aelodau'r mudiad, o'r ymddiriedolwyr / aelodau'r pwyllgor i staff a gwirfoddolwyr, i sicrhau eu bod yn cefnogi'r penderfyniad i fynd am y wobr.

2. Cwblhewch y rhestr wirio ragarweiniol i ddarganfod os yw'ch mudiad yn barod i ddechrau'r broses.

3. Cwblhewch ffurflen gofrestru *Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr* ar lein.

4. Bydd anfoneb am y ffi cofrestru yn cael ei anfon, ac unwaith y derbynnir y tâl, bydd Ymgynghorydd *Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr* yn cysylltu â chi ar gyfer cyflwyniad i'r wobr a thrafod sut y byddwch yn ei chyflawni.

Pa gefnogaeth sydd ar gael?

Bydd hawl gennych weld llawer ffurf o gefnogaeth i'ch helpu i gyflawni *Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr,* rhai am ddim, eraill i'w prynu.

Adnoddau am ddim:

- Gall adran Cwestiynau Cyffredin ar y wefan gynnwys yr atebion a geisiwch.
- Gallwch hefyd chwilio adran Rheoli Gwirfoddolwyr ar wefan WCVA www.wcva.org.uk/volunteering sy'n cynnwys polisïau, taflenni gwybodaeth a chyngor mewn ffurf a ellir ei lawr lwytho.

Eraill - i'w prynu:

- Wrth gofrestru, gallwch fynd at lyfrgell Arfer Da *Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr,* sy'n cynnwys ystod o gyngor a gwybodaeth ddefnyddiol.
- Llawlyfr Gwirfoddoli Diogelach - £3 i aelodau WCVA, £5 i eraill.
- Y Rheolwr Gwirfoddolwr Cyflawn - canllaw ar y we i bopeth rydych eisiau gwybod am reoli gwirfoddolwyr - £8 i aelodau WCVA, £12 i eraill.
- Recriwtio Gwirfoddolwyr - llawlyfr ymarfer da - cyhoeddiad WCVA - £5 i aelodau WCVA, £7.50 i eraill

Gellir archebu cyhoeddiadau WCVA ar lein at www.wcva.org.uk/publications, neu drwy e-bostio iiv@wcva.org.uk neu drwy ffonio Lein Gymorth WCVA 0800 2888 329.

Hyfforddiant

Mae WCVA yn rhedeg cwrs tri diwrnod ar reoli gwirfoddolwyr - ***Y Rheolwr Gwirfoddoli Effeithiol,*** yn ogystal â rhaglen hyfforddiant ar wahanol agweddau o reoli gwirfoddolwyr. Gweler www.wcva.org.uk/training am fanylion neu cysylltwch â'r tîm hyfforddi ar training@wcva.org.uk 029 2043 1723. Mae WCVA yn hapus i ddatblygu hyfforddiant mewnol arbennig i'ch helpu i gwrdd â safonau *Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr.* Cysylltwch â iiv@wcva.org.uk i drafod eich anghenion.

Cefnogaeth arbenigol

Os ydych yn gweld angen cymorth a chefnogaeth arbenigol un ac un, ar ôl i chi lenwi'r rhestr wirio hunan asesu, cysylltwch â'ch ymgynghorydd WCVA. Bydd ef/hi yn gallu rhoi cyngor i chi ar sut i gael cymorth i gynhyrchu cynllun datblygu, a chynllunio rhaglen i gwrdd â'r gweithrediadau a nodwyd yn y cynllun.

Efallai bydd rhai mudiadau eisiau cyflogi gwasanaeth hyfforddwr neu fentor i'w helpu i ddatblygu ymarferion i gwrdd â safonau *Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr.* Gall y rhain gostio tua £250 - £300 y diwrnod.

Costau pecyn cyflawn: mae'r opsiwn yma'n bodoli i fudiadau wneud cais am becyn cefnogaeth cyflawn i'w helpu i gyflawni'r safon.

Gwybodaeth bellach

Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr
www.investinginvolunteers.org.uk

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Medrwn Môn
Uned 5, Parc Ddiwydiannol Bryn Cefni, Llangefni, Sir Ynys Môn, LL77 7XA
Elusen Gofrestredig *1088828*

Ffôn: 01248 724944 post@medrwnmon.org
Ffacs: 01248 750149 www.medrwnmon.org

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddaru:04/12/2009

Cyngor Gwirfoddol Cymru WCVA Wales Council for Voluntary Action
Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk